Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tirweddau Ffydd



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Mae tirwedd De Cymru yn frith o straeon, chwedlau, safleoedd, hanesion a bywydau sy'n adlewyrchu treftadaeth amrywiol a chyfoethog ffydd sy'n dyddio'n ôl i

- Gynhanes
- y Goresgyniad Rhufeinig
- Oes y Seintiau Celtaidd
- y cyfnod canoloesol
- twf anghydffurfiaeth
- prif draddodiadau ffydd y byd sydd wedi dod i Gymru fodern.

Mae Tirweddau Ffydd yn gwireddu Cynllun Gweithredu Twristiaeth Ffydd 2013 Llywodraeth Cymru:

- cynnal helfa drysor gymunedol i ddarganfod tirweddau ffydd i gymunedau ac ymwelwyr a'u dathlu, gan hyrwyddo amrywiaeth gyfoethog hanes, treftadaeth, straeon a chymunedau, a'r arlwy a'r croeso sydd ar gael heddiw
- Darparu map digidol ar-lein sy'n dangos arlwy gwych tirweddau ffydd yn Ne Cymru
- Dangos y gall dull gweithredu sy'n seiliedig ar waith hwyluso cymunedol gynhyrchu straeon marchnata gwych a chysylltu'r arlwy i ymwelwyr â chymunedau a phobl go iawn, brwdfrydedd gwirioneddol a chroeso cynnes.

**Sut y cyflawnwyd y nodau hyn?**

Gwnaethom wahodd cymunedau, safleoedd treftadaeth, ysgolion a'r llu o draddodiadau ffydd gwahanol i gymryd rhan mewn helfa drysor gymunedol i archwilio eu trysorau lleol yn nhirwedd ffydd Cymru. Yna, ym mis Mehefin 2021, aeth y prosiect ar daith, **gan gynnal pedair gŵyl gyffrous ledled De Cymru gyda chyfleoedd di-baid i ddarganfod a dathlu cymunedau dros gyfnod o 30 diwrnod.**

Wrth i argyfwng COVID-19 ddod i ben ac wrth i bobl deimlo'n fwy hyderus i ddod ynghyd a theithio unwaith eto, rydym yn paratoi i wneud y canlynol:

- dod â'r prosiect i ben drwy gynnal digwyddiad dathlu, gan wahodd pobl o'r llu o gymunedau a gymerodd ran
- yn y digwyddiad hwnnw, lansio arddangosfa o luniau o'r Tirweddau Ffydd yn Ne Cymru a dynnwyd gan ffotograffydd rhyngwladol llwyddiannus y prosiect Kiran Ridley

- lansio map ar-lein Tirweddau Ffydd sy'n dangos 12 prif arlwy'r tirweddau ffydd, ynghyd â dwsinau o rai llai sy'n cysylltu cymunedau a lleoedd a'r arlwy sydd ar gael yn y dirwedd.

**Pwy oedd yn rhan o'r prosiect?**

Cymuned yn Nhregaron ac Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur; Eglwys hynafol Dewi Sant, Llanddewi Brefi; Tref Llanymddyfri; Cymuned Defynnog; Cenhadaeth heddwch byd-eang - Peace Mala; Cymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot; Abaty Margam; Pentref Trelales; Tref Llanilltud Fawr; Eglwys Sant Illtud; Pentrefi ac ysgolion yn Onllwyn a Banwen; Cymuned Penrhys; Cymuned Y Porth; Cymuned a thref Merthyr Tudful; Tref Pontypridd
Cymuned yng Nghymoedd Llynfi ac Ogwr; Cymuned Y Gelli Gandryll; Cymuned Llangors; Tref Aberhonddu; Cymunedau ym Mryste; Tref Cil-y-coed; Cymuned yn Y Fenni; Cymuned ym Mhont-y-pŵl; Tref Caerllion; Cymuned yng Nghasnewydd; Cyngor Mwslimiaid Cymru; Tŷ Krishna; Cyngor Mwslimiaid Cymru; Cymuned ac ysgolion yn y Tyllgoed, Caerdydd; Cymuned yn Yr Eglwys Newydd, Caerdydd; Tref Penarth; Cymuned, tref ac ysgolion yn y Barri.

Gyda phartneriaethau yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Merthyr
- Cyngor Bwrdeistref Merthyr
- Cyngor Cymuned Onllwyn
- Rhedeg Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- The New Room, Bryste

Gwaith a gomisiynwyd gan:

- Kizzy Crawford – cantores/cyfansoddwraig o Gymru
- Bragod – deuawd cerddorol rhyngwladol o Gymru
- Kiran Ridley – ffotograffydd rhyngwladol llwyddiannus

**Gan bwy y cawsoch help a chyngor?**

Gwnaethom gwmpasu a chyflwyno'r prosiect gyda chymorth a chyngor gan y canlynol:

- CADW
- CBHC
- Peace Mala
- Cyngor Mwslimiaid Cymru
- Esgobaeth Llandaf
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Cyngor Cymuned Onllwyn
- Cyngor Hindŵaid Cymru

**Beth fu'r prif gyflawniad hyd yma?**

Cwestiwn da!!!!

Y prif gyflawniad hyd yma fu dod â'r llu o gymunedau ynghyd mewn gŵyl 30 diwrnod ym mis Mehefin 2021 i ddathlu ac archwilio tirweddau ffydd yn Ne Cymru. Roedd yn brofiad eithriadol – am gyfnod o fis cyfan, aethom ar daith bob dydd gan ddarganfod llefydd gwahanol, clywed straeon a chynnal digwyddiadau gŵyl:

- Gwnaethom greu carnifal cymunedol i ail-lwyfannu herwgipiad Sant Padrig gyda byddin o filwyr Rhufeinig go iawn a chlwb rygbi'r pentref ym Manwen.
- Mae'r gantores o Gymru, Kizzy Crawford, wedi cyfansoddi cân newydd sbon (i'w lansio gyda'r map digidol newydd) sy'n dathlu santes Tudful, y cafodd tref Merthyr Tudful ei henwi i anrhydeddu ei merthyrdod.
- Ar y cyd â Rhedeg Cymru, gwnaethom greu ras hwyl i ferched drwy bentref hardd Ynysowen, gan greu medal ddathlu geramig arbennig o'r groes Geltaidd a welir yn nhref Merthyr Tudful.
- Bu Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, yn rhan o ddigwyddiad cymunedol dros Zoom yn ystod y cyfyngiadau symud i ddathlu pentref hardd Banwen fel man genedigol Sant Padrig a chofio pawb a ddioddefodd yn sgil masnachu mewn pobl yng Nghymru.
- Adroddodd plant ysgol o'r Barri hanes Sant Barrwg, y mae'r dref wedi ei henwi ar ei ôl, ac mewn perfformiad cymunedol ar draeth Ynys y Barri, gwnaethant dynnu eog syfrdanol dau fetr o hyd o'r môr.

- Gwnaethom gynnal gŵyl undydd yng Nghaerllion gan godi dwy groes maint llawn yn y dref i ddathlu dau ferthyr Cristnogol cynharaf Cymru, Julius ac Aaron.
- Ysbrydolodd Tirweddau Ffydd fenter ddiwylliannol newydd a grëwyd yn Llanilltud Fawr, sef cartref canolfan ddysgu gynharaf Prydain yn y chweched ganrif. Bydd y Llyfrgell Newydd, a agorodd yn ystod yr ŵyl, yn helpu i ddatblygu'r arlwy i dwristiaid yn y dref ac i egluro treftadaeth traddodiadau'r Cristnogion Celtaidd i gymunedau ac eglwysi.
- Comisiynodd prosiect Tirweddau Ffydd gerddoriaeth a pherfformiad gan yr artistiaid o Gymru, Bragod, ac roedd y gerddoriaeth a'r perfformiad yn rhan ganolog o'r gwaith a enwebwyd ac a arddangoswyd ar gyfer Gwobr Turner eleni – gwobr gelf fodern enwocaf Prydain
- Mae gweithgareddau'r ŵyl yn ddi-ben-draw ....

**A'r her fwyaf?**

Yr her fwyaf oedd pandemig COVID-19 a'r argyfyngau iechyd, economaidd a diwylliannol rhyngwladol sydd wedi deillio ohono.

Dyfeisiwyd y prosiect fel darn o waith hwyluso cymunedol, gyda sgyrsiau go iawn, â phobl iawn, mewn mannau go iawn, i ennyn brwdfrydedd a chanfod yr hyn y gall tirweddau ffydd ei gynnig i drigolion lleol ac ymwelwyr.

Roeddem wedi cynllunio chwe mis o waith hwyluso cymunedol yn ystod gwanwyn, haf a hydref 2020. Cafodd hyn ei lesteirio gan y pandemig, cyfyngiadau symud, cyfyngiadau cyfreithiol, pryder diwylliannol a diffyg hyder y cyhoedd.

Gwnaethom barhau i weithio dros y ffôn ac ar-lein, gan ehangu ein sgyrsiau cymunedol, a gwnaethom lwyddo i lansio a chynnal Gŵyl Deithiol 30 diwrnod Tirweddau Ffydd ym mis Mehefin 2021, gan fynd ar bedair taith arbennig, cwrdd â chymunedau ledled De Cymru, a datgelu arlwy gwych o drysorau i ymwelwyr a chroeso cymunedol.

**Unrhyw awgrymiadau i'r rheini sy'n sefydlu prosiectau tebyg?**

Mae'r math hwn o weledigaeth prosiect a gwaith hwyluso sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio'n dda wrth chwilio am naratif marchnata sy'n cysylltu â chymunedau go iawn. Rydym wedi cyfarch, ymholi, gwrando ac archwilio, cyn mynd ati i lywio'r arlwy wedi hynny. Ac mae pethau newydd hyfryd, sydd â photensial a chyrhaeddiad gwych, wedi deillio o hynny.

Mae'n galonogol i unrhyw un sy'n gweithio ym maes treftadaeth ffydd, naill ai mewn sefydliad ffydd – eglwysi, mosgiau, synagogau a themlau, neu mewn cyrff statudol – Cadw, Y Comisiwn Brenhinol, amgueddfeydd, awdurdodau lleol a Croeso Cymru – wybod bod y cyhoedd a chymunedau yn croesawu sgyrsiau am dirweddau ffydd, y straeon am dreftadaeth ffydd yn eu hardal, a'r arlwy i ymwelwyr.

Gwelsom fod diffyg hyder diwylliannol ymhlith eglwysi yn gyffredinol o ran eu treftadaeth a'u cyd-destunau cymdeithasol ehangach, a bod llawer o egni cymunedol y prosiect yn deillio o aelodau cymunedol a sefydliadau lleol y tu hwnt i'r eglwys. Mae hyn yn galonogol iawn i'r rheini sydd am ddatblygu ymhellach ym maes twristiaeth ffydd. Gwelsom fod gan bobl o bob diwylliant awydd sylweddol am ddigwyddiadau rhyng-ffydd sy'n rhannu ac yn cynnig lletygarwch.

Mae'r eglwysi Cristnogol a'r sefydliadau ffydd eraill rydym wedi ymgysylltu â nhw ac a ddaeth yn rhan o'r prosiect yn gwneud gwaith gwych. Maent yn ysbrydoliaeth wirioneddol ac yn llygedyn o obaith i'r cymunedau ac i gymdeithas.

**Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Mae cyfyngiadau COVID-19 bellach yn cael eu codi ac mae hyder y cyhoedd i deithio a dod ynghyd yn dychwelyd. Byddwn yn mynd ati i ddod â phobl ynghyd i wneud y canlynol:

- Lansio'r wefan newydd wedi'i brandio ynghyd â'r map digidol newydd o'r holl arlwy
- Lansio arddangosfa o luniau o'r Tirweddau Ffydd gan y ffotograffydd rhyngwladol llwyddiannus, Kiran Ridley.

